CYLCHGRAWN I FFERMWYR A THYFWYR YNG NGHYMRU

# cyswllt FFERMIO

## Datblygu strategaeth newydd ar gyfer sgiliau, datblygiad a hyfforddiant i weithwyr amaethyddol yng Nghymru

**Rhwydwaith Ein Ffermydd**

Dywedwch helo wrth Rhwydwaith Ein Ffermydd newydd Cyswllt Ffermio



Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

RHIFYN 2 - Gorffennaf-Medi 2023

**llyw.cymru/cyswlltffermio**

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

# Cyswllt Ffermio:

# RHWYDWAITH EIN FFERMYDD

Dywedwch helo wrth y ffermydd newydd sy'n ffurfio Rhwydwaith Ein Ffermydd Cyswllt Ffermio!


Mae'r rhwydwaith yn cynnwys 15 o ffermydd ledled Cymru a fydd yn cynnal treialon a phrosiectau sy'n canolbwyntio ar arloesi a thechnolegau newydd i'w helpu nhw a ffermydd eraill Cymru i gyrraedd sero net erbyn 2050, ac i adeiladu gwydnwch a chynaliadwyedd yng nghanol hinsawdd sy'n newid.

Yn dilyn lansiad Rhwydwaith Ein Ffermydd yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, dyma'ch cyfle i ddod i adnabod ffermwyr Cymru a fydd yn agor eu drysau i chi dros y ddwy flynedd nesaf i rannu arfer gorau a syniadau newydd ar gefn prosiectau ar y fferm a chanlyniadau treialon.

Parhewch i ddarllen i ddilyn eu taith ac am fanylion y prosiectau y byddant yn eu cychwyn yn fuan.

Defnyddiwch y Cod QR i ddysgu mwy am eu systemau ffermio.

**Dywedwch helo wrth RHWYDWAITH EIN FFERMYDD newydd Cyswllt Ffermio**






## AWEL Y GRUG

**Beth wnaeth i chi benderfynu dod yn ffermwr?**

Rwyf bob amser wedi bod â diddordeb mewn peiriannau a weldio. Mae fy angerdd am ffermio wedi tyfu'n gryfach ers cael mwy o gyfrifoldebau a chael mwy o lais wrth redeg y busnes. Mae gweld pethau'n gweithio pan fyddwn yn gwneud newidiadau a gwelliannau yn rhoi boddhad i mi.

**Beth na allech chi fynd hebddo ar y fferm?**

Ci defaid - Lad

**Beth yw eich hoff adeg o'r flwyddyn a pham?**

Adeg wyna, er y gall pethau fynd o chwith... ac mae hynny'n digwydd, ar ddiwedd y dydd, dyma'r adeg bwysicaf o'r flwyddyn i ni ac unwaith y bydd wedi dod i ben mae'r ymdeimlad o gyflawniad yn foddhaol iawn.

**Beth yw'r cyngor mwyaf defnyddiol a roddwyd i chi erioed?**

Os oes gennych broblem ar y fferm, cyfaddefwch fod gennych broblem, gofynnwch am gyngor a gweithredwch arno.

**Beth yw'r meysydd allweddol yr hoffech ganolbwyntio arnynt fel ffermwr Rhwydwaith Ein Ffermydd?**

- Lleihau costau mewnbwn
- Cael y cynnydd pwysau byw dyddiol (DLWG) mwyaf posibl
- Gwella effeithlonrwydd mamogiaid trwy edrych ar amnewidion a bioddiogelwch

**Ble hoffech chi weld y busnes fferm mewn 5 - 10 mlynedd?**

Y nod, fel y mae gyda'r rhan fwyaf o ffermwyr rwy'n siŵr, yw gallu parhau i gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel, heb ddibynnu ar gymorthdaliadau. Hoffwn weld stoc o ansawdd gwell ar y fferm er mwyn sicrhau elw gwell i bob mamog.

EIN FFERMYDD
OUR FARMS

**LLEOLIAD:**
**Y Trallwng, De Sir Drefaldwyn**

**FFERMWR(WYR):**
**Chris a Glyn Davies**

**FFERM:**
**Sector: Cig Coch**
**Maint y fferm (ha): 139**
**Nifer y da byw:**
**800 o famogiaid 100 o ŵyn benyw, 30 buwch sugno, 1 tarw.**



**LLEOLIAD:**
Llansantffraid, Gogledd Sir Drefaldwyn

**FFERMWR(WYR):**
Marc, Wynn a Bethan Griffiths

**FFERM:**
Sector: Cig Coch
Maint y fferm (ha): 120
Nifer y da byw: 520 o famogiaid a 110 o wartheg





## CILTHREW

**Beth wnaeth i chi benderfynu dod yn ffermwr?**

Roeddwn yn ffodus i gael fy ngeni i fyd ffermio ac ar ôl mynd i ffwrdd i'r brifysgol a mynd ar leoliad gwaith o fewn cwmni gwerthu amaethyddol, fe wnes i benderfynu fy mod i eisiau bod yn ffermwr.

**Beth na allech chi fynd hebddo ar y fferm?**

Y cŵn defaid, maent werth 10 o bobl pan rydych chi'n hel defaid, yn enwedig mewn lleoedd na allwch chi gael y gator atyn nhw, ac maen nhw'n caniatáu i chi weithio gyda defaid ar eich pen eich hun.

**Beth yw eich hoff adeg o'r flwyddyn a pham?**

Mis Mai yw fy hoff adeg o'r flwyddyn, mae'r cyfnod wyna ar ben, y gwartheg allan, y cnydau'n tyfu, a dylai glaswellt fod yn tyfu'n wyllt.

**Beth yw'r cyngor mwyaf defnyddiol a roddwyd i chi erioed?**

"Rheolwch yr hyn y gallwch ei reoli a pheidiwch â phoeni am y gweddill. Gwnewch yr hyn y gallwch chi mewn sefyllfaoedd a bydd y gweddill yn datrys ei hun" - Doug Avery

**Ble hoffech chi weld y busnes fferm mewn 5 - 10 mlynedd?**

Wedi esblygu i fod yn fwy effeithlon, gan fod yn well yn yr hyn a wnawn a chael llif incwm o arallgyfeirio.




## CLYNGWYN

**Beth wnaeth i chi benderfynu dod yn ffermwr?**

Mae teulu'r ddau ohonom wedi bod yn ffermio ers cenedlaethau, rwy'n credu ein bod wedi ein geni i mewn iddo!

**Beth na allech chi fynd hebddo ar y fferm?**

Fy mesurydd plât. Rwy'n mesur yr holl gaeau pori o leiaf bob wythnos yn ystod y tymor pori. Mae'n hanfodol er mwyn cadw digon o laswellt da o flaen y gwartheg.

**Beth yw eich hoff adeg o'r flwyddyn a pham?**

Y gwanwyn. Rwyf wrth fy modd pan fydd y lloi newydd yn cael eu geni, mae pob diwrnod fel y Nadolig! Y diwrnod y mae'r gwartheg yn mynd allan yw diwrnod gorau'r flwyddyn.

**Beth yw'r cyngor mwyaf defnyddiol a roddwyd i chi erioed?**

Mae pob fferm yn wahanol. Efallai na fydd yr hyn sy'n gweithio yn rhywle arall yn gweithio i chi.

**Beth yw'r meysydd allweddol yr hoffech ganolbwyntio arnynt fel ffermwr Rhwydwaith Ein Ffermydd?**

- A yw godro unwaith y dydd (OAD) yn opsiwn ymarferol i leihau llwyth gwaith a gwella ansawdd bywyd?
- Pa welliannau allwn ni eu gwneud i gynyddu ein llaeth o borthiant?
- Allwn ni wella ffrwythlondeb y fuches laeth?

**Ble hoffech chi weld y busnes fferm mewn 5 - 10 mlynedd?**

Yn dal i odro mewn system syml, y gallwn reoli ein hunain, gyda digon o amser i ffwrdd!

EIN FFERMYDD
OUR FARMS

**LLEOLIAD:**
Clynderwen, Sir Benfro

**FFERMWR(WYR):**
Jeff, Sarah, Enfys a Medi Wheeler

**FFERM:**
Sector: Llaeth
Maint y fferm (ha): 105
Nifer y da byw: 150 o wartheg llaeth croesfrid a 60 o heffrod ifanc



EIN FFERMYDD
OUR FARMS

**LLEOLIAD:**
Aberaeron, Gogledd Ceredigion

**FFERMWR(WYR):**
Deryl a Francis Jones

**FFERM:**
Sector: Llaeth a defaid
Maint y fferm (ha): 100
Nifer y da byw:
120 o wartheg llaeth, 300 o ddefaid a 65 o heffrod ifanc





## RHYD Y GOFAINT

**Beth wnaeth i chi benderfynu dod yn ffermwr?**

Ar ôl cael fy magu ar fferm weithredol, rwyf bob amser wedi ymddiddori mewn ffermio a arweiniodd at barhau â'm hastudiaethau ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar ôl graddio, dychwelais adref a dros y 24 mlynedd diwethaf rwyf wedi gweithio ochr yn ochr â fy rhieni i gynyddu'r ardal sy'n cael ei ffermio sydd wedi caniatáu i ni gynyddu nifer y stoc.

**Beth na allech chi fynd hebddo ar y fferm?**

Telehandler.

**Beth yw eich hoff adeg o'r flwyddyn a pham?**

Y gwanwyn! Bywyd newydd, glaswellt newydd a'r cylch yn dechrau eto.

**Beth yw'r cyngor mwyaf defnyddiol a roddwyd i chi erioed?**

Byddwch yn ddiolchgar pan fydd eich problemau y tu allan i'r drws ffrynt.

**Beth yw'r meysydd allweddol yr hoffech ganolbwyntio arnynt fel ffermwr Rhwydwaith Ein Ffermydd?**

- Cynyddu cynhyrchiant glaswellt cymaint â phosibl
- Sut y gall adnoddau adnewyddadwy a newidiadau rheoli leihau ein hôl troed carbon
- Gwella rheolaeth heffrod er mwyn cynyddu nifer yr heffrod sy'n cymryd semen â'r rhyw wedi'i bennu a'u lloia yn 24 mis oed.

**Ble hoffech chi weld y busnes fferm mewn 5 - 10 mlynedd?**

Wedi cwblhau'r cynlluniau gwella isadeiledd ac wedi cydgrynhoi ar y buddsoddiadau a wnaethom.




## GLYN ARTHUR FARM

**Beth wnaeth i chi benderfynu dod yn ffermwr?**

Rwyf wedi dilyn fy nhad o gwmpas y fferm ac wedi helpu yn y corlannau gyda'r defaid o mor ifanc ag y gallaf gofio. Rwyf bob amser wedi ymddiddori yn y fferm ac ar ôl dilyn geiriau doeth fy nhad ar ôl gadael yr ysgol i roi cynnig ar rywbeth gwahanol oherwydd byddai'r fferm bob amser yma, fe wnes i, ond roeddwn bob amser yn cael fy nhynnu'n ôl i'r fferm pryd bynnag y gallwn. Rwyf wedi bod yn ôl ar y fferm am y 15 mlynedd diwethaf yn helpu cymaint â phosibl wrth weithio oddi ar y fferm ac rwyf ond newydd ddechrau ffermio'n llawn amser gyda fy nhad dros y 5/6 mlynedd diwethaf.

**Beth na allech chi fynd hebddo ar y fferm?**

Y cŵn defaid.

**Beth yw eich hoff adeg o'r flwyddyn a pham?**

Mae hynny'n anodd ei ateb. Mae gan yr holl dymhorau rannau da a rhannau drwg. Cyn belled â bod y defaid yn gwneud yr hyn y dylent fod yna rwy'n hapus.

**Beth yw'r cyngor mwyaf defnyddiol a roddwyd i chi erioed?**

Cyn belled â'ch bod wedi gwneud eich gorau, dyna'r cyfan allwch chi ei wneud.

**Beth yw'r meysydd allweddol yr hoffech ganolbwyntio arnynt fel ffermwr Rhwydwaith Ein Ffermydd?**

- Homeopathi ac asesu statws mwynau'r mamogiaid i gefnogi iechyd a lles anifeiliaid
- Gwella gwerth maethol porthiant a dyfir gartref i leihau dibyniaeth ar borthiant sy'n cael ei brynu i mewn
- Archwilio gwahanol systemau rheoli pori i weld a ellir adfywio porfeydd parhaol heb fewnbynnau.

**Ble hoffech chi weld y busnes fferm mewn 5 - 10 mlynedd?**

Hoffwn weld y fferm mewn sefyllfa ddigon cryf i wynebu pa bynnag stormydd a allai fod ar y gorwel, yn amgylcheddol ac yn ariannol. Gan fy mod yn ddigon ffodus i fod â theulu ar y fferm ers yr 1700au, rwyf am sicrhau bod y fferm mewn sefyllfa ddigon diogel i'r genhedlaeth ar ôl mi i'w chadw i fynd.

EIN FFERMYDD
OUR FARMS

**LLEOLIAD:**
Llandyrnog, Dinbych

**FFERMWR(WYR):**
Robert Williams a Sarah Hammond

**FFERM:**
Sector: Cig Coch
Maint y fferm (ha): 160
Nifer y da byw:
650 o famogiaid a 200 o ŵyn benyw



EIN FFERMYDD
OUR FARMS

**LLEOLIAD:**
Llanbedr Pont Steffan, De Ceredigion

**FFERMWR(WYR):**
David, Eryl a Daniel Evans

**FFERM:**
Sector: Cig Coch
Maint y fferm (ha): 121
Nifer y stoc: 350 o famogiaid a 45 o fuchod sugno





## TANYGRAIG

**Beth wnaeth i chi benderfynu dod yn ffermwr?**

Ar ôl cael fy magu ar y fferm deuluol, mae'n ffordd o fyw i mi. Rwyf bob amser wedi bod â diddordeb brwd yn y fferm ac i ffermio'n flaengar.

**Beth na allech chi fynd hebddo ar y fferm?**

Y system deledu cylch cyfyng sydd gennym ar waith ar y fferm. Mae wedi trawsnewid y cyfnod wyna a lloia i ni. Mae gallu gwylio buwch yn lloia ar gamera a gweld bod llo wedi sugno yn ei wneud yn declyn gwych.

**Beth yw eich hoff adeg o'r flwyddyn a pham?**

Yr adeg o'r flwyddyn lle rydym ni'n rhoi gwrtaith ar gaeau silwair, rwy'n gwybod bryd hynny bod yr haf ar ei ffordd!

**Beth yw'r cyngor mwyaf defnyddiol a roddwyd i chi erioed?**

Dywedodd fy nhad-cu - mae'r tir yn onest. Os ydych chi'n gofalu am y tir, bydd y tir yn gofalu amdanoch chi.

**Beth yw'r meysydd allweddol yr hoffech ganolbwyntio arnynt fel ffermwr Rhwydwaith Ein Ffermydd?**

- Lleihau costau heb leihau allbwn
- Defnyddio technoleg i helpu i ddiogelu'r busnes yn y dyfodol
- Lleihau dyddiau hyd at ladd gan wella lefelau carbon y pridd ar y fferm

**Ble hoffech chi weld y busnes fferm mewn 5 - 10 mlynedd?**

Wedi gwella ac ehangu'r busnes yn barhaus.



## LOWER HOUSE FARM

**Beth wnaeth i chi benderfynu dod yn ffermwr?**

Cefais fy magu ar dyddyn y teulu a bûm yn gweithio ar amryw o ffermydd lleol cyn astudio gradd mewn Amaethyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth.

**Beth na allech chi fynd hebddo ar y fferm?**

Y peiriant pacio wyau! Os nad yw'r peiriant pacio yn gweithio, rhaid pacio wyau 32,000 o ieir â llaw.

**Beth yw eich hoff adeg o'r flwyddyn a pham?**

Fy hoff adeg o'r flwyddyn yw diwedd y cyfnod wyna - dyddiau hirach, tywydd gwell, a'r gobaith y bydd eleni yn well na'r flwyddyn ddiwethaf.

**Beth yw'r cyngor mwyaf defnyddiol a roddwyd i chi erioed?**

Peidiwch â gadael i chwyn bach ddod yn chwyn mawr.

**Beth yw'r meysydd allweddol yr hoffech ganolbwyntio arnynt fel ffermwr Rhwydwaith Ein Ffermydd?**

- Lleihau costau mewnbwn
- Tyfu cnydau protein (e.e. pys a ffa) i leihau'r angen i brynu protein i mewn a lleihau ôl troed carbon y fferm
- Gwell defnydd o dail ieir

**Ble hoffech chi weld y busnes fferm mewn 5 - 10 mlynedd?**

Hoffwn weld busnes cynaliadwy yn cynnig cyfleoedd i fy nau blentyn ddatblygu ac ehangu pe baent yn dewis, gan ddarparu incwm realistig iddynt ar yr un pryd

EIN FFERMYDD
OUR FARMS

**LLEOLIAD:**
Llandrindod, Sir Faesyfed

**FFERMWR(WYR):**
Robert a Jessica Lyon

**FFERM:**
Sector: Cymysg
Maint y fferm (ha): Yn berchen ar 93, yn rhentu 48
Nifer y da byw: 32,000 o ieir, 150 o heffrod, 600 o famogiaid



EIN FFERMYDD
OUR FARMS

**LLEOLIAD:**
**Llanuwchllyn, Meirionnydd**

**FFERMWR(WYR):**
**Rhodri a Claire Jones**

**FFERM:**
**Sector: Cig Coch**
**Maint y fferm (ha): 263**
**Nifer y da byw:**
**35 o wartheg a stoc ifanc a 700 o famogiaid**





# BRYNLLECH UCHAF

**Beth wnaeth i chi benderfynu dod yn ffermwr?**

Helpu dad yn y dyddiau cynnar ac nid oes dim byd arall wedi newid fy meddwl!

**Beth na allech chi fynd hebddo ar y fferm?**

Teulu, glaw, cŵn ac amynedd.

**Beth yw eich hoff adeg o'r flwyddyn a pham?**

Yr hydref, mae cylch bridio'r defaid yn dechrau ac yna'r gwanwyn i weld y broses yn dod i'r amlwg.

**Beth yw'r cyngor mwyaf defnyddiol a roddwyd i chi erioed?**

Peidiwch â newid i ddilyn ffasiwn; newidiwch os yw'n addas i chi a gwella'r hyn rydych chi'n ceisio'i wneud.

**Beth yw'r meysydd allweddol yr hoffech ganolbwyntio arnynt fel ffermwr Rhwydwaith Ein Ffermydd?**

- Iechyd a pherfformiad y gwartheg
- Lleihau gwariant a dibyniaeth ar borthiant a brynir i mewn
- Dod o hyd i borfa / porfa gymysg sy'n gweddu i'r system, y tir a'r hinsawdd

**Ble hoffech chi weld y busnes fferm mewn 5 - 10 mlynedd?**

Proffidiol, cynaliadwy a chynhyrchiol.



# CORNWAL UCHAF

**Beth wnaeth i chi benderfynu dod yn ffermwr?**

Mae ffermio yn dod yn naturiol i mi ar ôl fy rhieni i raddau, ac yn ffordd arbennig o fyw.

**Beth na allech chi fynd hebddo ar y fferm?**

Yn sicr, iechyd yw'r peth pwysicaf i mi ar y fferm - mae llawer o ffermwyr yn gweithio'n galed drwy'r dydd bob dydd ac nid ydynt yn rhoi amser i ofalu am eu hiechyd corfforol a meddyliol.

**Beth yw eich hoff adeg o'r flwyddyn a pham?**

Tymor y gwanwyn, rwyf wrth fy modd gyda'r adeg yma pan mae'r glaswellt yn tyfu a'r ŵyn yn rhedeg o gwmpas y caeau, os yw'r tywydd yn ffafriol wrth gwrs.

**Beth yw'r cyngor mwyaf defnyddiol a roddwyd i chi erioed?**

Ffermio i fyw a pheidio â byw i ffermio. Mae angen i ni weithio er mwyn cael rhywbeth i'w rannu ag eraill. Weithiau mae angen i ni eistedd i lawr a meddwl am ble mae ein busnes yn mynd yn y dyfodol.

**Beth yw'r meysydd allweddol yr hoffech ganolbwyntio arnynt fel ffermwr Rhwydwaith Ein Ffermydd?**

- Gwella'r system bori trwy ddefnyddio meillion coch neu wyndwn llysieuol a defnyddio gwrtaith yn fwy effeithiol trwy ddefnyddio technoleg a mapiau i wneud hyn.
- Gwella ffrwythlondeb y gwartheg
- Lleihau lefel cloffni yn y ddiadell.

**Ble hoffech chi weld y busnes fferm mewn 5 - 10 mlynedd?**

Hoffwn fod yma'n dal i ffermio a chanolbwyntio ar gynhyrchu bwyd ar gyfer poblogaeth y byd sy'n tyfu. Hoffem weld ein mab Gwion yn ein dilyn i ffermio yma fel y gwnaeth ei hen daid, a ddaeth yma yn 16 oed i ffermio 100 mlynedd yn ôl.

EIN FFERMYDD
OUR FARMS

**LLEOLIAD:**
**Gwytherin, Conwy**

**FFERMWR(WYR):**
**Dylan, Gwenda a Gwion Roberts**

**FFERM:**
**Sector: Bîff a Defaid**
**Maint y fferm (ha): 152**
**Nifer y da byw:**
**40 o fuchod sugno, 12 o heffrod a 500 o ddefaid.**



**LLEOLIAD:**
Treffynnon, Fflint

**FFERMWR(WYR):**
David, Heulwen a Rhys Davies

**FFERM:**
Sector: Llaeth
Maint y fferm (ha): 45ha ynghyd â 40ha wedi'i rentu
Nifer y da byw: 100 o fuchod sy'n lloia yn y gwanwyn ac 80 o heffrod ifanc





## MOOR FARM

**Beth wnaeth i chi benderfynu dod yn ffermwr?**
Cyfle i weithio gyda gwartheg o safon.

**Beth na allech chi fynd hebddo ar y fferm?**
Rhaglen feddalwedd Agrinet ac yn ddiweddar y system goler i nodi heffrod sy'n gofyn tarw a phrofion genomig ar y da byw ifanc.

**Beth yw eich hoff adeg o'r flwyddyn a pham?**
Tymor y gwanwyn, i weld heffrod sy'n llaetha allan yn pori ac yn cyflawni eu potensial geneteg.

**Beth yw'r cyngor mwyaf defnyddiol a roddwyd i chi erioed?**
'Mae glaswellt yn annog glaswellt i dyfu'

**Beth yw'r meysydd allweddol yr hoffech ganolbwyntio arnynt fel ffermwr Rhwydwaith Ein Ffermydd?**
- Pridd a phorthiant ar gyfer tywydd eithafol
- Sut gall deallusrwydd artiffisial (AI) fod o ddefnydd cadarnhaol
- Cynyddu allbynnau heb gynyddu mewnbynnau

**Ble hoffech chi weld y busnes fferm mewn 5 - 10 mlynedd?**
Sicrhau ein bod yn parhau i fodloni gofynion a safonau cynyddol uchel ein prynwr llaeth ac i wneud mwy gyda llai o ran ein hadnoddau.



## TYDDYN CAE

**Beth wnaeth i chi benderfynu dod yn ffermwr?**
Cael fy magu ar fferm ac mewn ardal lle mae'r gymuned amaethyddol yn gryf a bod yn ffodus i gael y cyfle i ddod yn ôl adref i ymuno â busnes ffermio'r teulu.

**Beth na allech chi fynd hebddo ar y fferm?**
Rydym wedi canolbwyntio ar greu system sy'n gyfleus, drwy gynnwys y defnydd o dechnoleg yn y parlwr godro a system 'crafwyr awtomatig' sy'n lleihau gwaith o ddydd i ddydd i mi a'r tîm, sy'n hanfodol ar gyfer llwyddiant y fferm.

**Beth yw eich hoff adeg o'r flwyddyn a pham?**
Mis Medi yw'r adeg gorau o'r flwyddyn i mi, pan mae'r fuches yn lloia ar wair sydd wedi'i adael i dyfu (standing hay), rydym wedi bod yn ffodus bod mis Medi a diwedd y gaeaf wedi bod yn ffafriol o ran y tywydd dros y blynyddoedd diwethaf ac wedi ein galluogi i gael cyfnod lloia hawdd fel tîm - gobeithio y bydd hyn yn parhau i'r dyfodol.

**Beth yw'r cyngor mwyaf defnyddiol a roddwyd i chi erioed?**
I achub ar bob cyfle a ddaw. Mae angen i chi wneud y gorau o bob cyfle a manteisio arnyn nhw os mai dyma'r rhai iawn i chi wrth gwrs.

**Beth yw'r meysydd allweddol yr hoffech ganolbwyntio arnynt fel ffermwr Rhwydwaith Ein Ffermydd?**
- Gwella'r defnydd o gnydau sydd wedi'u tyfu gartref gyda gostyngiad yn y defnydd o nitrogen (N)
- Adolygu'r defnydd o wrthfiotigau
- Gwneud y gorau o laswellt ac opsiynau ar gyfer cyfnodau o sychder

**Ble hoffech chi weld y busnes fferm mewn 5 - 10 mlynedd?**
Rwy'n gobeithio gallu datblygu cynhyrchiant y fuches, trwy gadw costau mor isel â phosibl, yn enwedig gwrtaith a phorthiant a brynir i mewn.

EIN FFERMYDD
OUR FARMS

**LLEOLIAD:**
Pwllheli, Gwynedd

**FFERMWR:**
Ifan Ifans

**FFERM:**
Sector: Llaeth
Maint y fferm (ha): Llwyfan pori 90 ha a 100 ha o dir allanol ar gyfer silwair, cnydau a stoc ifanc/sych
Nifer y da byw: 390 o wartheg sy'n lloia yn yr hydref



EIN FFERMYDD
OUR FARMS

**LLEOLIAD:**
**Llangadog, Gogledd Sir Gaerfyrddin**

**FFERMWR(WYR):**
**Sian, Aled a Rhodri Davies**

**FFERM:**
**Sector: Cymysg**
**Maint y fferm (ha): 142**
**Nifer y da byw:**
**120 o wartheg llaeth, 32,000 o ieir, 500 o ddefaid**





# CWMCOWDDU

**Beth wnaeth i chi benderfynu dod yn ffermwr?**

Cawsom ein magu ar fferm felly rydym wedi ymddiddori mewn ffermio ers yn ifanc. Roedd gallu mynd i Gelli Aur am brynhawn tra yn yr ysgol yn gwneud i ni sylweddoli ein bod ni eisiau bod yn ffermwyr llawn amser.

**Beth na allech chi fynd hebddo ar y fferm?**

Y parlwr godro - rydym yn godro ddwywaith y dydd, sydd yn effeithlon iawn, felly mae'n caniatáu i ni wneud pethau eraill ar y fferm ac oddi arni.

**Beth yw eich hoff adeg o'r flwyddyn a pham?**

Yr amser ar ôl wyna, lle mae'r diwrnod yn mynd yn hirach ac mae mwy o amser yn y dydd.

**Beth yw'r cyngor mwyaf defnyddiol a roddwyd i chi erioed?**

Manteisiwch ar bob cyfle a ddaw a pheidiwch â bod ofn gwneud camgymeriadau ar hyd y ffordd. Dyna pam yr ydym wedi achub ar y cyfle i fod yn fferm arddangos!

**Beth yw'r meysydd allweddol yr hoffech ganolbwyntio arnynt fel ffermwr Rhwydwaith Ein Ffermydd?**

- Gwell defnydd o dail ieir i leihau'r gwrtaith sy'n cael ei brynu i mewn
- Gwella maeth a ffrwythlondeb y fuches laeth
- Cynyddu porthiant a'i wneud yn fwy 'goddefgar' i sychder

**Ble hoffech chi weld y busnes fferm mewn 5 - 10 mlynedd?**

Busnes llewyrchus, effeithlon sy'n gwneud y gorau o'r maetholion ar y fferm. Gobeithiwn wella perfformiad y fuches a'i chynyddu'n raddol dros y blynyddoedd nesaf. Rydym hefyd yn gobeithio gwella ein system bori a lleihau dyddiau hyd at ladd ŵyn.



# CRICKIE FARM

**Beth wnaeth i chi benderfynu dod yn ffermwr?**

Cefais fy ngeni a'm magu ar y fferm deuluol ac mae'n ffordd o fyw i mi. Roeddwn yn ffodus i gael y cyfle i ddod adref i ffermio.

**Beth na allech chi fynd hebddo ar y fferm?**

Y cwad, y ci a fy ngwraig, Dyddanwy. Maen nhw i gyd yn help mawr i mi ar y fferm.

**Beth yw eich hoff adeg o'r flwyddyn a pham?**

Fy hoff adeg o'r flwyddyn yw'r gwanwyn pan fydd yr anifeiliaid yn mynd allan i'r caeau.

**Beth yw'r cyngor mwyaf defnyddiol a roddwyd i chi erioed?**

Os ydych chi'n meddwl y dylech chi wneud rhywbeth, dylech ei wneud. Gwnewch yr hyn sy'n iawn i chi a chymerwch ychydig o gyngor gan wahanol bobl.

**Beth yw'r meysydd allweddol yr hoffech ganolbwyntio arnynt fel ffermwr Rhwydwaith Ein Ffermydd?**

- Effeithlonrwydd porthiant
- Enillion Pwysau Byw Dyddiol
- Ymdrechu i wella'r busnes ar gyfer y dyfodol

**Ble hoffech chi weld y busnes fferm mewn 5 - 10 mlynedd?**

Hoffwn weld y fferm yn fusnes cynaliadwy, proffidiol gyda llai o fewnbynnau.

EIN FFERMYDD
OUR FARMS

**LLEOLIAD:**
**Llangors, Aberhonddu**

**FFERMWR(WYR):**
**Roger a Dyddanwy Pugh**

**FFERM:**
**Sector: Cig Coch**
**Maint y fferm (ha): 94**
**Nifer y da byw:**
**55 o wartheg sugno gyda lloeau, 300 o famogiaid a 80 o hesbinod**



EIN FFERMYDD
OUR FARMS

LLEOLIAD:
Llanfachraeth,
Ynys Môn

FFERMWR:
Gerallt Jones

FFERM:
Sector: Cig Coch
Maint y fferm (ha): 119
Nifer y da byw:
500 o ddefaid 280 o wartheg





# GRAIANFRYN

**Beth wnaeth i chi benderfynu dod yn ffermwr?**

Cefais fy ngeni a'm magu ar y fferm. Penderfynais beidio â ffermio a mynd allan i weithio yn gyntaf. Ar ôl gweithio i ychydig o gwmnïau gwahanol ac ennill llawer o brofiad, penderfynais ei bod yn amser dod adref i ffermio a bod yn rheolwr arnaf fy hun.

**Beth na allech chi fynd hebddo ar y fferm?**

Y ffôn symudol, dyfais fach ond ofnadwy o ddefnyddiol i gadw cofnod o'r anifeiliaid.

**Beth yw eich hoff adeg o'r flwyddyn a pham?**

Heb os nac oni bai, fy hoff adeg o'r flwyddyn yw'r gwanwyn pan mae'r stoc yn cael eu troi allan a phan mae pob man yn edrych yn 'hardd' a gwyrdd. Rwyf wrth fy modd yn gweld y pleser mae'r anifeiliaid yn ei gael yn mynd allan i borfa.

**Beth yw'r cyngor mwyaf defnyddiol a roddwyd i chi erioed?**

Yn y bore mae dal hi.

**Beth yw'r meysydd allweddol yr hoffech ganolbwyntio arnynt fel ffermwr Rhwydwaith Ein Ffermydd?**

- Iechyd lloi yn ystod cyn ac ar ôl diddyfnu
- Maeth y gwartheg ar hyd eu hoes
- Cynyddu'r porthiant a dyfir ar y fferm

**Ble hoffech chi weld y busnes fferm mewn 5 - 10 mlynedd?**

Busnes sy'n ffynnu ac yn ehangu. Y prif ffocws ar hyn o bryd yw bod y fferm yn cynnal bywoliaeth i mi a'r teulu.



# TY COCH

**Beth wnaeth i chi benderfynu dod yn ffermwr?**

Mae yn y gwaed ac mae'n ffordd o fyw i mi.

**Beth yw'r newid mwyaf y daethoch ar ei draws yn ystod eich blynyddoedd yn ffermio?**

Cynnydd ym maint ffermydd a llai o lafur ar y fferm. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i bobl ifanc ddod i mewn i'r diwydiant.

**Beth na allech chi fynd hebddo ar y fferm?**

Y ci.

**Beth yw eich hoff adeg o'r flwyddyn a pham?**

Fy hoff adeg o'r flwyddyn yw'r gwanwyn/haf - mae'r dyddiau'n hirach ac mae'r da byw yn cael eu troi allan o'r siediau.

**Beth yw'r cyngor mwyaf defnyddiol a roddwyd i chi erioed?**

Mae'n rhaid i chi bob amser gael rhywbeth i gael rheswm i godi yn y bore.

**Beth yw'r meysydd allweddol yr hoffech ganolbwyntio arnynt fel ffermwr Rhwydwaith Ein Ffermydd?**

- Gwell gwytnwch a phroffidioldeb y busnes yn yr hirdymor

**Ble hoffech chi weld y busnes fferm mewn 5 - 10 mlynedd?**

Ddwywaith y maint y mae'r fferm nawr! Busnes gwydn a phroffidiol.

EIN FFERMYDD
OUR FARMS

LLEOLIAD:
Brynbuga,
Sir Fynwy

FFERMWR(WYR):
Nigel Bowyer a'r teulu

FFERM:
Sector: Cig Coch
Maint y fferm: 80 ha
Nifer y da byw: 270 o ddefaid a 70 o wartheg bîff



Manteisiwch ar hyd at 90% o gymorth wedi'i ariannu tuag at

# GYNGOR IECHYD ANIFEILIAID A PHROFI

GWASANAETH CYNGHORI
ADVISORY SERVICE

Gall Cyswllt Ffermio gefnogi cyngor ar iechyd anifeiliaid a phrofi gyda'ch milfeddyg lleol.

**Gall cynllun iechyd wedi'i deilwra i bob busnes gynnwys:**

- Adolygiad o driniaethau milfeddygol arferol
- Proffil clefyd da byw
- Meincnodi a nodi meysydd i'w gwella
- Cyngor ar wella statws iechyd yr holl anifeiliaid ar y fferm
- Mesurau bioddiogelwch i leihau'r risg o gyflwyno neu ledaenu clefyd
- Lles anifeiliaid
- Samplu a phrofi anifeiliaid i ymchwilio i anhwylder posib sydd ar y fferm

**Rhaid i ffermwyr a milfeddygon dderbyn cymeradwyaeth gan Cyswllt Ffermio cyn dechrau'r gwaith.**

**Cyllid cyfyngedig ar gael.**

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu lleol, neu ffoniwch y Ganolfan Wasanaeth.

**03456 000 813**

**llyw.cymru/cyswlltffermio**



## 'GORAU CYFOETH - IECHYD'





# ARLOESI AC ARALLGYFEIRIO CYMRU

# INNOVATION AND DIVERSIFICATION WALES

## 21/09/2023

**10:00 - 17:00**

Maes Sioe Frenhinol Cymru / Royal Welsh Showground
Llanelwedd LD2 3SY

## Archebwch eich tocyn am ddim

## *Book your free ticket*

# Gwasanaeth Cymorth GARDDWRIAETHOL Newydd ar y gweill

GARDDWRIAETH
HORTICULTURE

**Ym mis Ebrill 2023, lansiwyd gwasanaeth diweddaraf Cyswllt Ffermio – Tyfu ar gyfer Twf – Gwasanaeth Cymorth Garddwriaeth Cyswllt Ffermio.**

**Mae'r ychwanegiad newydd hwn yn ategu'r gwasanaethau a gynigir yn y Rhaglen Cyswllt Ffermio lawn.**

Gall Cyswllt Ffermio bellach ddarparu sylfaen gref o gymorth i fynd i'r afael â materion, heriau a chyfleoedd garddwriaethol. Ein prif flaenoriaethau yw cefnogi'r diwydiant i gynyddu cynhyrchiant cnydau garddwriaeth gan 25%, annog y diwydiant i gadw at arferion cynaliadwy, cefnogi datblygiad y gadwyn gyflenwi a hyrwyddo gweithgareddau arallgyfeirio hyfyw. Bydd hyn yn cynyddu amrywiaeth yn y sector amaethyddiaeth yng Nghymru ac yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer datblygu a thwf busnes.

Trwy fabwysiadu dull cadwyn gyflenwi gyfan a meithrin perthnasoedd agos â phawb yn y sector, mae Gwasanaeth Cymorth Garddwriaeth Cyswllt Ffermio mewn sefyllfa unigryw i ymateb i anghenion uniongyrchol a darparu arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod busnesau'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer twf gwyrdd a chynhwysol.

Gall busnesau ac unigolion cofrestredig Cyswllt Ffermio gael mynediad at restr helaeth o ddarpariaeth sydd wedi'i hanelu at gynorthwyo tyfwyr masnachol (sydd am ddatblygu neu ehangu menter sy'n bodoli eisoes), busnesau newydd a phrosiectau arallgyfeirio cynaliadwy.

## MAE'R CYNNIG YN CYNNWYS:

- Cymorth busnes garddwriaeth wedi'i **ARIANNU'N LLAWN** (> 12 awr) mewn meysydd fel effeithlonrwydd cynhyrchu, pecynnu, defnyddio dŵr, iechyd planhigion, dewis cnydau, cyfryngau tyfu, ac ati.
- Cyfle i ymuno â rhwydwaith cnwd neu sector-benodol gyda chyfleoedd hyfforddi/dysgu perthnasol.
- Gweithdai hyfforddi ar gyfer tyfwyr ar y safle a ddarperir gan ymgynghorwyr arbenigol.
- Ymweliadau astudio arbenigol yng Nghymru a thu hwnt yn arddangos mentrau garddwriaethol enghreifftiol.
- Cyfle i ymuno â chlwstwr i archwilio cyfleoedd caffael a llwybrau i'r farchnad.
- Y cyfle i fwydo i mewn i ddatblygiad polisi ac adborth sector-benodol.

Dechreuodd Gwasanaeth Cymorth Garddwriaeth Cyswllt Ffermio ar dân gyda nifer o ymweliadau astudio yn ystod yr ychydig fisoedd cyntaf yn ymdrin ag ystod o faterion garddwriaethol amserol: Rheoli Pridd ar gyfer Gwinllannoedd, Esblygiad fferm Berlysiau yn y DU, Hyrwyddo a Dosbarthu Llysiau o Gymru a Tyfu'n Ddi-Fawn.



Gyda llawer mwy ar gael yn y misoedd nesaf, cadwch lygad ar wefan Cyswllt Ffermio



# I Roi'r Pethau Pwysicaf yn Gyntaf…

SGILIAU A HYFFORDDIANT
SKILLS AND TRAINING

**Bydd cyrsiau e-ddysgu gorfodol newydd Cyswllt Ffermio yn rhoi cychwyn gwych i chi cyn hyfforddiant ymarferol.**

O fis Medi 2023 ymlaen, bydd yn ofynnol i holl ddysgwyr Cyswllt Ffermio gwblhau cyrsiau e-ddysgu gorfodol a ariennir yn llawn cyn gwneud cais am fwy na hanner cyrsiau hyfforddi achrededig cymorthdaledig y rhaglen.

Gyda bron i 80 o gyrsiau hyfforddi achrededig ar gael ar hyn o bryd, wedi'u categoreiddio'n fras o dan 'busnes', 'da byw' a 'tir', erbyn yr hydref, bydd 48 o'r rhain yn gofyn eich bod yn cwblhau cwrs e-ddysgu gorfodol yn gyntaf.

*"Bydd dysgu'r pethau sylfaenol trwy e-ddysgu perthnasol yn rhagofyniad hanfodol cyn y gall unrhyw unigolyn cofrestredig wneud cais am hyfforddiant achrededig dethol," meddai Becky Summons sy'n rheoli gwasanaeth iechyd a lles anifeiliaid ac e-ddysgu Cyswllt Ffermio.*

*Ymhlith y pynciau lle bydd hyn yn berthnasol mae iechyd a diogelwch, busnes, diogelwch plaladdwyr, cloffni mewn gwartheg a ffrwythlondeb y fuches.*

*"Bydd ymgymryd â modiwl e-ddysgu byr, ond perthnasol, cyn iddynt ymgymryd â hyfforddiant ymarferol wyneb yn wyneb yn rhoi hyder a chychwyn buddiol i ddysgwyr, fel bod ganddynt y wybodaeth sylfaenol berthnasol a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt ymlaen llaw,"* meddai Ms. Summons.

Gyda **6,775** o gyrsiau e-ddysgu wedi'u cwblhau gan unigolion cofrestredig ers 2015, mae'n amlwg bod dysgu ar-lein yn rhan boblogaidd a phwysig o ddarpariaeth hyfforddiant Cyswllt Ffermio. Mae dysgwyr yn astudio ar amser a chyflymder sy'n addas iddyn nhw, gan eu galluogi i gynyddu eu set sgiliau mewn ffordd hygyrch a hyblyg. Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau'n cymryd tua 20 munud i'w cwblhau, gyda chwis byr ar ddiwedd pob cwrs, gan roi sicrwydd bod y wybodaeth allweddol wedi'i dysgu.

# STORFA SGILIAU…

STORFA SGILIAU

## eich offeryn cadw cofnodion ar-lein personol

- ✓ Tystysgrifau ar gyfer holl gyrsiau e-ddysgu Cyswllt Ffermio a chyrsiau hyfforddi achrededig wedi'u llwytho ar eich cyfer
- ✓ Mynediad ar unwaith i'ch holl sgiliau, cymwysterau a chyflawniadau mewn un man diogel
- ✓ Y gallu i ddangos eich sgiliau ar gyfer cynlluniau sicrwydd fferm, partneriaid y gadwyn gyflenwi neu i ddiweddaru eich CV

I gael rhagor o wybodaeth am holl opsiynau hyfforddiant Cyswllt Ffermio neu i gael arweiniad ar y broses ymgeisio, ewch i **www.llyw.cymru/cyswlltffermio**. Fel arall, cysylltwch â Chanolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar 03456 000 813 neu eich swyddog datblygu lleol.

# Datblygu strategaeth newydd ar gyfer sgiliau, datblygiad a hyfforddiant i weithwyr amaethyddol yng Nghymru

**"Gweithio yng Nghymru…cefnogi ein gweithwyr amaeth' … sgiliau tir, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus dan y chwyddwydr yr hydref hwn**

Ddydd Iau, 19 Hydref, bydd cynrychiolwyr gwadd o sefydliadau rhanddeiliaid gwledig allweddol gan gynnwys sefydliadau addysgol a darparwyr hyfforddiant yng Nghymru, yn mynychu cynhadledd 'Gweithio yng Nghymru - cefnogi ein gweithwyr amaeth', sef cynhadledd sgiliau a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), i'w chynnal ar faes y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd.

Wedi'i chynnal gan Cyswllt Ffermio ar y cyd â Phanel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru, gofynnir i gynrychiolwyr ystyried y ddarpariaeth bresennol sydd ar gael a beth arall y gallai fod angen ei roi ar waith i gynorthwyo hyfforddiant, DPP a rhagolygon gyrfa yn y dyfodol pawb sydd eisiau gweithio o fewn y sectorau amaethyddiaeth, garddwriaeth a choedwigaeth yng Nghymru yn y blynyddoedd i ddod, a hynny yn y ffordd orau.

Bydd canfyddiadau ac argymhellion y gynhadledd yn gam cyntaf pwysig tuag at 'Galwad am Dystiolaeth' a fydd yn cael ei lansio yn y digwyddiad ar ran is-bwyllgor sgiliau, datblygiad a hyfforddiant Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru. Dywed Cadeirydd yr is-bwyllgor, Dr Nerys Llewelyn Jones, un o brif siaradwyr y digwyddiad, y bydd adborth o'r gynhadledd yn helpu i lunio'r strategaeth ar gyfer opsiynau hyfforddiant yn y dyfodol a rhagolygon gyrfa holl weithwyr amaethyddol Cymru. Bydd y digwyddiad yn cael ei drefnu gan Cyswllt Ffermio, a ddarperir gan Menter a Busnes a Lantra Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru.

Bydd y cynrychiolwyr a wahoddir yn cynnwys cynrychiolwyr o bob sefydliad rhanddeiliaid gwledig allweddol a darparwyr hyfforddiant gan gynnwys yr undebau amaeth, Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, ysgolion, prifysgolion, sefydliadau addysg bellach ac uwch yn ogystal â Hybu Cig Cymru, y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) a phartneriaid y gadwyn gyflenwi. Bydd y prif siaradwyr a gweithdai wedi'u hwyluso yn mynd i'r afael â materion gan gynnwys recriwtio, hyfforddiant a DPP gan gynnwys pwysigrwydd hyrwyddo a defnyddio'r Storfa Sgiliau, sef offeryn ar-lein diogel Cyswllt Ffermio ar gyfer cofnodi sgiliau a chyflawniadau, er mwyn denu a chadw gweithwyr amaethyddol cymwys, llawn cymhelliant a fydd yn bodloni anghenion pob busnes tir yng Nghymru yn y dyfodol.

"Mae ein diwydiant yn newid yn barhaus ac mae'n rhaid iddo fod yn broffesiynol, yn fywiog ac yn gallu bodloni gofynion amgylcheddol ac economaidd y dyfodol."

"Ein cyfrifoldeb ar y cyd fel rhanddeiliaid gwledig yw gweithio ar y cyd, nodi bylchau yn y ddarpariaeth a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau neu heriau sy'n wynebu gweithwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer dyfodol lle bydd arloesedd a thechnoleg fodern yn chwarae rhan gynyddol arwyddocaol."

"Rhaid i ni ymgysylltu â darpar weithwyr gan gydnabod hefyd cyfraniad pwysig ein gweithlu presennol a sicrhau bod gennym ni'r cymorth a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i gyd i'w helpu i symud ymlaen, i aros yn llawn cymhelliant ac yn ysgogol i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth ymhellach," meddai Dr Llewelyn Jones.

Bydd rhaglen y diwrnod yn cynnwys cyflwyniadau gan siaradwyr a gweithdai wedi'u hwyluso pan fydd mynychwyr yn trafod ac yn cyflwyno argymhellion ar faterion sy'n effeithio ar yrfaoedd a rhagolygon holl weithwyr fferm Cymru. Bydd canfyddiadau cyfunol o'r gynhadledd a'r is-bwyllgor sgiliau, datblygu a hyfforddiant 'Galwad am Dystiolaeth', yn helpu i ddylanwadu ar strategaeth newydd ar gyfer y sector o 2024 ymlaen.



**"Rhaid i ni weithio ar y cyd, gan ddod â'r rhanddeiliaid a'r cyflogwyr allweddol ynghyd a all roi'r lefel briodol o gymorth, hyfforddiant a chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ar waith i ddenu a chadw gweithwyr amaethyddol galluog, llawn cymhelliant."**

**Dr. Nerys Llewelyn Jones, Cadeirydd - Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru**

**"Mae gwaith caled, uchelgais a'r cyfle i ennill sgiliau a gwybodaeth newydd eisoes yn gwneud gwahaniaeth enfawr i broffesiynoli a moderneiddio'r diwydiant yng Nghymru. Mae darpariaeth dysgu gydol oes a datblygiad Cyswllt Ffermio yn cefnogi'r agenda hollbwysig hon."**

**Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Lantra Cymru**

# CADW PLANT YN DDIOGEL AR Y FFERM DROS WYLIAU'R HAF

1. Ni ddylid caniatau i blant fod yn ardal waith y fferm (a dylai plant ifanc fwynhau'r awyr agored mewn ardal ddiogel sydd wedi cael ei ffensio).
2. Dylid cynllunio a goruchwylio ymweliad unrhyw blentyn o dan 16 ag ardal waith y fferm, ar gyfer addysg neu brofiad i ddatblygu gwybodaeth, gan oedolyn nad yw'n gwneud y gwaith.
3. Mae plant o dan 13 wedi'u gwahardd yn benodol rhag gyrru na mynd ar gefn unrhyw beiriant amaethyddol.

Am fwy o wybodaeth, sganiwch yma:
Neu, chwiliwch **Diogelwch Fferm Cymru** ar Facebook



PARTNERIAETH DIOGELWCH AR FFERMYDD CYMRU
WALES FARM SAFETY PARTNERSHIP